
Cynnwys Pobl Anabl Adroddiad Ymchwil

Medi 2019

V1.1 - Crynodeb, Casgliadau ac Argymhellion



Gyda chefnogaeth:

Cynllun Grantiau Cymru o Blaid Affrica
Llywodraeth Cymru



Susila
Dharma
Britain
building with humanity

Welsh Government's Wales for Africa
Grant Scheme

Cynnwys

Acronymau a Byrfoddau	3
Rhestr o Dablau	3
Rhestr o Ffigurau	3
Diolchiadau	4
Nodyn ar gyfrinachedd	4
.....	4
Crynodeb Gweithredol.....	5
1. Cefndir	7
2. Adolygiad Llenyddiaeth	8
3. Methodoleg.....	11
4. Cyfyngiadau	14
5. Canfyddiadau	15
5.1 Pobl anabl.....	15
5.1.1 Nodweddion cyfranogwyr yn yr ymchwil	15
5.1.2 Cymhellion a rhwystrau rhag cymryd rhan.....	17
5.1.3 Diddordeb mewn cymryd rhan	19
5.1.4 Galluogwyr cyfranogi	20
5.1.5 Ymwybyddiaeth o sefydliadau allweddol	23
5.2.1 Nodweddion y sefydliadau	23
5.2.2 Cynnwys pobl anabl yng ngwaith y sefydliad	24
5.2.3 Ymwybyddiaeth o sefydliadau allweddol	29
6. Casgliadau.....	30
7. Argymhellion.....	37
8. Cyfeiriadau	39

Acronymau a Byrfoddau

PA	Person anabl / pobl anabl
SPAau	Sefydliadau Pobl Anabl (dan arweiniad fwyafrol pobl anabl)
AC	Anabledd Cymru
DWA	Anabledd yng Nghymru ac Affrica
HCA	Hub Cymru Affrica

Tudalen

Rhestr o Dablau

Tabl 3.1 Crynodeb o'r ymatebion gan sefydliadau datblygu	13
Tabl 3.2 Crynodeb o ymatebion gan SPAau	13
Tabl 5.1 Cynnwys pobl anabl gan sefydliadau Cymru-Affrica	24

Rhestr o Ffigurau

Ffigur 5.1 - Diddordeb mewn ymgysylltu â sefydliadau Cymru-Affrica	19
Ffigur 5.2 - Diddordeb mewn mynd i Affrica i gefnogi datblygu	20
Ffigur 5.3 - Beth allai annog pobl anabl i gymryd rhan gyda sefydliadau Cymru-Affrica	21
Ffigur 5.4 - Sut mae'ch gweithgaredd yn helpu pobl anabl i ddod yn rhan weithredol o'r gymuned?	29
Ffigur 6.1 - Mathau o waith a wnaed gan bartneriaethau Cymru-Affrica	33
Ffigur 6.2 - Mathau o waith sydd o ddiddordeb i bobl anabl	33

Diolchiadau

Cynhaliwyd y prosiect ymchwil hwn gan Dr Natasha Hirst a Dr Alun Hughes gyda chefnogaeth Sam Woodward, y ddau olaf ohonynt o 20 Degrees Consulting Ltd.

Rydym yn ddiolchgar am gymorth a chefnogaeth Anabledd yng Nghymru ac Affrica, Hub Cymru Africa ac Anabledd Cymru.

Hoffem estyn yr un diolch i gynrychiolwyr sefydliadau datblygu, pobl anabl unigol a chynrychiolwyr sefydliadau pobl anabl a roddodd eu hamser yn rhad ac am ddim gan gynnig eu safbwyntiau er mwyn cyfrannu at yr adolygiad hwn. Diolch yn fawr i bob un ohonynt am eu cyfraniadau.

Nodyn ar gyfrinachedd

Roedd pawb a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn yn gwneud hynny gyda'r ddealltwriaeth bod eu hadborth yn gyfrinachol. Mae pob dyfyniad wedi'i wneud yn ddienw a phan gyfeirir at rai a gyfwelwyd ac a ymatebodd i'r arolwg, defnyddir y rhywiau benywaidd a gwrywaidd ar hap er mwyn helpu i'w cadw'n anhysbys.

Crynodeb Gweithredol

Mae cyfranogiad pobl anabl yn sector Cymru-Affrica wedi bod yn ganolbwynt i brosiect partneriaeth rhwng Anabledd yng Nghymru ac Affrica, Hub Cymru Africa ac Anabledd Cymru. Gan ddefnyddio dulliau cymysg o arolygon a chyfweliadau â phobl anabl, sefydliadau pobl anabl a sefydliadau Cymru-Affrica, nod yr ymchwil hwn oedd canfod beth sy'n digwydd ar hyn o bryd a dyheadau ar gyfer cynyddu cyfranogiad pobl anabl yn sector Cymru-Affrica. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at nifer o heriau ac yn cynnig nifer o atebion ar gyfer gwella cynhwysiant pobl anabl.

Yn hanesyddol, nid yw lleisiau pobl anabl wedi eu clywed yng nghydestun yr agenda datblygu, er eu bod yn dargedau allweddol o safbwynt cael budd o ymdrechion i leihau tlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol. Er y bu ymdrechion amlwg yng Nghymru i gynyddu gweithgaredd pobl anabl, prin fu'r cynnydd.

Yn sgil cyfradd isel o ymgysylltu â'r ymchwil gan bobl anabl, atgyfnerthwyd yr argraff bresennol nad yw gwaith sefydliadau Cymru-Affrica yn amlwg ar y radar ar gyfer pobl anabl na'u sefydliadau. Awgrymodd y canfyddiadau fod llawer o bobl anabl yng Nghymru yn teimlo ei bod yn ddigon anodd sicrhau eu hawliau sylfaenol a chael gafael ar gymorth yn eu bywydau dydd i ddydd, a'u bod felly yn blaenoriaethu materion lleol yn hytrach na rhai rhyngwladol.

Nid yw'r heriau o gynnwys pobl anabl yn unigryw i sector Cymru-Affrica o bell ffordd. Fodd bynnag, mae llawer o bobl anabl a fu'n rhan o'r ymchwil eisoes yn wirfoddolwyr gweithredol yn eu cymunedau lleol, ac yn chwilio am gyfleoedd i wneud gwahaniaeth. Roeddent yn aml yn defnyddio eu profiad byw fel pobl anabl i gyfrannu at hyrwyddo cydraddoldeb anabledd yng Nghymru.

Nododd pobl anabl a fynegodd ddiddordeb mewn gwaith Cymru-Affrica ei bod yn bwysig cael gwybod pa gyfleoedd sydd yna iddynt gymryd

rhan, teimlo bod croeso iddynt a gwneud cyfraniad ystyrlon. Gallai fod yn hwb hefyd petai pobl yn gwybod y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i ddeall ac i fynd i'r afael â phryderon ynghylch hygrychedd a chynhwysiant. Yn ogystal, roedd pobl yn ymwybodol bod eu dealltwriaeth gyfyngedig o wahaniaethau diwylliannol ac ymarferol rhwng bywydau pobl anabl yng Nghymru ac yn Affrica yn golygu ei bod yn bwysig bod pobl anabl Affrica yn rhan o'r broses o osod blaenoriaethau unrhyw waith y bwriedir iddo fod o fudd iddynt.

Dangosodd sefydliadau Cymru-Affrica awydd i fod yn gynhwysol ac roeddent yn cydnabod bod gwahanol safbwyntiau yn ychwanegu at werth eu gwaith. Fodd bynnag, mae llawer o sefydliadau yn fach iawn ac nid ydynt am geisio ehangu neu maent wedi'u cyfyngu gan brinder adnoddau, capasiti a gofod gweithio. Mae'r ffaith nad yw data cydraddoldebau yn cael eu casglu mewn modd dibynadwy yn gosod her hefyd o ran monitro unrhyw ymdrechion i wella cynhwysiant.

Mae rhai camau syml y gall sefydliadau datblygu eu cymryd er mwyn rhannu gwybodaeth am eu gwaith a chroesawu cynnwys pobl anabl. Byddai dangos sut mae pobl anabl eisoes yn cymryd rhan ac yn gwneud cyfraniad a chynnig cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a chydsefyll yn chwalu stereoteipiau ac yn annog cyfranogiad.

Gall y sefydliadau partner a ysgogodd yr ymchwil hwn hefyd chwarae rôl i gynorthwyo sefydliadau i wella'r ffordd y maent yn cynnwys pobl anabl, trwy ddarparu adnoddau a hyfforddiant priodol.

1. Cefndir

Sicrhaodd Anabledd yng Nghymru ac Affrica (DWA), Hub Cymru Africa (HCA) ac Anabledd Cymru (AC) gefnogaeth gan Susila Dharma a Chymru o Blaid Affrica ar gyfer prosiect i annog pobl anabl i gymryd rhan yng ngweithgareddau amrywiol sector Cymru-Affrica. Roedd angen dealltwriaeth sylfaenol o agweddau ac arferion cyfredol ynghylch cyfranogiad pobl anabl yn y sector.

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i'r gofyniad sylfaenol hwnnw ac yn ceisio ymateb i'r brîff ymchwil trwy nodi:

- a) ffactorau sy'n rhwystrau a rhai sy'n gymorth i gynnwys pobl anabl
- b) gwerth cynnwys pobl anabl i unigolion, grwpiau a sefydliadau
- c) faint o ddiddordeb posib sydd ymhlith pobl anabl Cymru mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymru-Affrica
- d) beth yw canfyddiad pobl anabl a'u mudiadau o Sector Cymru-Affrica
- e) pa bethau allai ysgogi rhywun anabl i ymgysylltu â'r Sector
- f) beth yw'r rhwystrau rhag cyfranogiad pobl anabl mewn gweithgareddau Cymru-Affrica a sut y gellir cael gwared ohonynt
- g) pa botensial sydd i Bartneriaethau Cymru-Affrica gynnwys ac ymgorffori'r sgiliau a'r arbenigedd sydd gan bobl anabl i'w cynnig
- h) beth yw canfyddiad Dolenni Cymru-Affrica o gynhwysiant anabledd a pham y maent yn gweld pethau fel hynny
- i) pam mae'n ymddangos bod cymaint o Ddolenni Cymru-Affrica yn gweld cynhwysiant anabledd fel gweithredu'n symbolaidd / mynd ar ôl sgwarnog / rhywbeth sy'n rhy anodd, yn hytrach nag ymarfer mewn gwaith datblygu, arfer da a rhywbeth y byddent yn elwa ohono
- j) pa gasgliadau y gellir dod iddynt a pha argymhellion y gellir eu gwneud ar sail yr astudiaeth
- k) pa adnoddau a gweithgareddau sydd eu hangen, i alluogi pobl anabl i gael eu cynnwys a chymryd rhan yn Sector Cymru-Affrica.

2. Adolygiad Llenyddiaeth

Mae trafodaethau ynglŷn â chynnwys pobl anabl mewn gwaith datblygu yn tueddu i ganolbwyntio ar wella cynhwysiant pobl anabl dramor mewn rhaglenni iechyd, addysg neu ddatblygu bywoliaeth. Deilliodd hyn i raddau o'r ffaith bod pobl wedi sylweddoli tua throad y mileniwm bod pobl anabl yn tueddu i fod yn anweledig i raglenni datblygu prif ffrwd, gan ddifreinio rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed rhag ymdrechion i leihau tlodi i bob pwrpas¹. Amcangyfrifodd y Cenhedloedd Unedig ar y pryd fod pobl anabl yn 10% o boblogaeth y byd, gyda dwy ran o dair o'r bobl sy'n ddifrifol i gymedrol anabl yn byw o dan y llinell dlodi². Yn baradocsaidd, gallai'r ffaith bod pobl anabl yn anweledig fod wedi deillio yn rhannol o ymdrechion datblygu cyfranogol gan gyrff a mudiadau datblygu³. O ystyried bod pobl anabl yn tueddu i gael eu cuddio o olwg y cyhoedd mewn gwledydd sy'n datblygu, anaml y clywyd am bethau oedd o bwys iddyn nhw.

Ers hynny, gwnaed ymdrechion i gynnwys pobl anabl mewn gwledydd sy'n datblygu yn y gwaith o gynllunio rhaglenni datblygu. Er enghraifft, mae *Disability and International Development*⁴ yn ystyried profiadau pobl anabl mewn ystod o wledydd incwm isel a chanolig. Mae'n cydnabod y gall pobl anabl gael eu cau allan ond gall hynny ddigwydd i raddau llai neu i raddau mwy oherwydd materion eraill, megis eu rhywedd. Mae beirniadaeth ar ddatblygu cyfranogol yn deillio o gyhuddiadau bod rhai cyrff anlywodraethol yn gwneud pethau symbolaidd⁵, y gall mentrau

¹ Overseas Development Group (2004) 'Disability Knowledge and Research: Assessing Connections to DFID's Poverty Agenda', t5, cyrchwyd yn https://assets.publishing.service.gov.uk/media/57a08cad40f0b652dd001498/PolicyProject_IsabelOrtizReportFinal1.pdf ar 13/09/19

² Ibid

³ Mohan, G. (2001) 'Participatory development', yn: Desai, V. a Potter, R. (gol.) 'The Arnold Companion to Development Studies', Hodder, tt. 49–54, Llundain, cyrchwyd yn <http://oro.open.ac.uk/4159/1/DEVCOMP2.pdf> ar 13/09/19

⁴ MacLachlan, M a Swartz, L. (2009) 'Disability & International Development', Springer, Efrog Newydd, gellir ei weld yn <https://link.springer.com/book/10.1007/978-0-387-93840-0>

⁵ Richards, P. (1995) 'Participatory Rural Appraisal: A quick and dirty critique', cyrchwyd yn https://www.researchgate.net/profile/Paul_Richards6/publication/238772781_Participatory_rural_appraisal_A_quick_and_dirty_critique/links/0f3175303bfcc30179000000/Participatory-rural-appraisal-A-quick-and-dirty-critique.pdf ar 13/09/19

strategol gan lywodraethau gael eu colli neu fod cymunedau'n cael eu trin fel rhai unffurf⁶. Er enghraifft, gall profiadau bywyd pobl anabl sydd â nam ar eu golwg fod yn wahanol iawn i brofiadau pobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth.

Er ein bod yn cydnabod yr amheuan uchod, roedd cyfranogiad pobl anabl a oedd yn ddarpar fuddiolwyr yn y gwaith o gynllunio rhaglenni wedi dod yn rhan o feddylfryd datblygu rhyngwladol prif ffrwd erbyn dechrau'r 2000au. Aeth papur a noddwyd gan y Banc Datblygu Asiaidd ymhellach, gan awgrymu y dylai *pobl ag anableddau fod yn rhan o bwyllogor llywio unrhyw brosiect*⁷.

Er y gellir dadlau bod cyfranogiad pobl anabl mewn gwaith datblygu fel buddiolwyr wedi cyrraedd meddylfryd datblygu prif ffrwd, mae'r llenyddiaeth yn parhau i fod yn brin iawn o unrhyw sôn am gyfraniadau y gallai pobl anabl eu gwneud o fewn sefydliadau datblygu. Un eithriad oedd Yeo a Moore yn dadlau nad oedd yn bosibl cyflawni'r hyn a alwyd yn Nodau Datblygu'r Mileniwm ar y pryd heb gynnwys pobl anabl yn llawn⁸. Roeddent yn dadlau bod diffyg cyfranogiad pobl anabl mewn sefydliadau datblygu yn golygu bod sefydliadau'n ystyried bod *anabledd* yn bwnc arbenigol tra roedden nhw'n tueddu i weithredu ar lefel gyffredinol ac yn teimlo bod cyfiawnhad dros anwybyddu materion pobl anabl. O ganlyniad, roedd pobl anabl yn parhau i fod heb eu clywed i raddau helaeth ac felly byddai'r tlodi a wynebai pobl anabl yn parhau heb ei daclo. Fe wnaethant alw am ymgysylltu mwy â phobl anabl wrth lunio polisiau, mewn ymgynghoriadau ac wrth gyflawni gwaith sefydliadau datblygu er mwyn gwrthdroi'r sefyllfa sydd ohoni.

⁶ Mosse, D. (1994) 'Authority, Gender and Knowledge: Theoretical Reflections on the Practice of Participatory Rural Appraisal', *Development and Change*, 25, 497-526.

⁷ Edmonds, L.J. (2005) 'Disabled People and Development', t46, Asian Development Bank, cyrchwyd yn <https://www.think-asia.org/bitstream/handle/11540/5360/Disabled-people-and-development.pdf?sequence=2> ar 13/09/19

⁸ Yeo, R. a Moore, K. (2003) 'Including Disabled People in Poverty Reduction Work: "Nothing About Us, Without Us"', *World Development* Cyf. 31, rhif 3, tt. 571-590

Er gwaethaf galwad Yeo a Moore am weithredu yn 2005, mae adroddiad diweddar gan y Cenhedloedd Unedig⁹ yn parhau i alw am ymgysylltu â phobl anabl i fynd i'r afael â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy:

“Heb i'r un biliwn o bobl ag anableddau sydd yn y byd - 15% o boblogaeth y byd - gael eu cynnwys fel asiantau a buddiolwyr datblygu, ni fydd y Nodau hyn byth yn cael eu cyflawni. Ac eto, mae pobl ag anableddau yn dal i fod yn anweledig ac yn aml yn cael eu gadael ar ôl ”¹⁰.

Yn hytrach na gorffen ar y nodyn braidd yn ddigalon hwn, dylid nodi bod enghreifftiau cadarnhaol o sefydliadau datblygu'n gweithio'n galed i gynnwys pobl anabl yn briodol. Mae cyflwyno hyfforddiant *Travelling Together* a ddatblygwyd ar gyfer World Vision yn achos nodedig yn hyn o beth¹¹.

⁹ Yr Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol (2019) 'Disability and Development Report - Realizing the Sustainable Development Goals by, for and with persons with disabilities', y Cenhedloedd Unedig, Efrog Newydd, cyrchwyd yn <https://www.un.org/development/desa/disabilities/wp-content/uploads/sites/15/2019/07/disability-report-chapter2.pdf> ar 13/09/19

¹⁰ Ibid, t285

¹¹ Coe, S. a Wapling, L. (2010) 'Travelling Together', World Vision UK cyrchwyd yn <https://www.wvi.org/disability-inclusion/publication/travelling-together> ar 13/09/19

3. Methodoleg

Adolygwyd y canlynol er mwyn sefydlu cyd-destun ar gyfer yr ymchwil:

- Dogfen fewnol DWA ar hanes sector Cymru-Affrica dros y 10-15 mlynedd diwethaf
- Cymdeithas Ddysgedig Cymru a WCIA (2019) 'Cyfrannu at Strategaeth Ryngwladol Cymru' a gyrchwyd yn <https://www.learnedsociety.wales/contributing-to-wales-international-strategy/> ar 13/09/19
- James, G. (2014) 'Disability Inclusive Development and the Wales Africa Sector', DWA, a gyrchwyd yn <http://www.dwanetwork.org/resources/reports/> ar 13/09/19
- Llywodraeth Cymru (2016) 'Cymru o blaid Affrica 10 mlynedd' a gyrchwyd yn <https://gov.wales/wales-africa-10-year-report> ar 13/09/19

Mynychodd yr ymchwilwyr ddigwyddiad HCA / DWA 'Cynnwys Pobl Anabl mewn Datblygu' ar 18/02/19 hefyd.

I ddechrau, cynlluniwyd dau arolwg er mwyn canfod safbwyntiau cynrychiolwyr sefydliadau Cymru-Affrica - [atodiad A.](#) - a phobl anabl - [atodiad B.](#)

Daeth 16 o'r 31 ymateb i'r arolwg ar gyfer sefydliadau Cymru-Affrica gan yr ymchwilwyr a fynychodd Uwchgynhadledd Datblygu Rhyngwladol Cymru yn 2019 gan fynd at y cynrychiolwyr yn rhagweithiol er mwyn cwblhau'r arolwg mewn sesiynau wyneb yn wyneb. Daeth gweddill yr ymatebion o fersiwn ar-lein o'r arolwg a hyrwyddwyd trwy Twitter. Yn absenoldeb rhestr gyswilt gynhwysfawr o sefydliadau Cymru-Affrica, lluniwyd rhestr gyfair o enwau Twitter sefydliadau Cymru-Affrica. Defnyddiwyd yr enwau Twitter hyn i dagio sefydliadau Cymru-Affrica mewn trydariadau i annog cwblhau'r arolwg. Tua diwedd cyfnod yr arolwg, hyrwyddodd Hub Cymru Africa y ddolen i'r arolwg trwy eu

cylchlythyr i aelodau. Ni chafwyd unrhyw ymatebion ychwanegol trwy wneud hynny.

Llwythwyd yr arolwg i bobl anabl i blatfform ar-lein a'i hyrwyddo trwy gyfuniad o gyfryngau cymdeithasol trwy gyfrif Twitter Anabledd Cymru a cheisiadau i sefydliadau pobl anabl gylchredeg gwybodaeth am yr arolwg i'w haelodau. Arweiniodd hynny at gyfanswm o 65 ymateb.

Yn sgil astudiaethau blaenorol, cydnabuwyd nad oedd nifer yr ymatebwyr i'r arolygon hyn yn debygol o fod yn ddigon uchel i ddarparu ystadegau cyffredinol am sector Cymru-Affrica neu PA yng Nghymru. O ganlyniad, darparodd yr arolygon fodd i gael caniatâd gwybodus i fynd at gyfranogwyr yr arolygon i gynnal cyfweiliadau ansoddol, manwl.

Defnyddiwyd cyfweiliadau manwl mewn dwy ffordd:

- i ymchwilio ymhellach i ganfyddiadau allweddol yr arolygon er mwyn dod i ddeall canfyddiadau a chymhellion yr ymatebwyr yn llawnach;
- i roi cadernid i'r ymchwili; h.y. roedd defnyddio dulliau lluosog yn rhoi modd i driongli canfyddiadau.

Er bod 17 o'r 31 o ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi eu bod yn barod i gael cyswllt pellach er mwyn cael cyfweiliad, dim ond tri a gafodd eu cyfweld. Y rhesymau am hyn oedd naill ai eu bod eisoes wedi cael eu harolygu wyneb yn wyneb ac nad oedd fawr ddim pellach i'w ennill (tri pherson) neu na chafwyd ymateb wrth geisio cysylltu (gwnaed hyd at dair ymgais i gysylltu â phob un).

Yn ogystal â mynd ar drywydd ymatebwyr i'r arolwg, canfuwyd rhestr o sefydliadau datblygu o arolwg blaenorol DWA. Canfuwyd cysylltiadau naill ai trwy ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd neu drwy ffonio eu rhifau ffôn cyffredinol a gofyn am gyfweiliadau. Gwnaed hyd at dair ymgais i gysylltu â phob sefydliad. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn nhabl 3.1.

Tabl 3.1 Crynodeb o'r ymatebion gan sefydliadau datblygu

	Nifer y sefydliadau
Sefydliadau y cysylltwyd â nhw	43
Sefydliadau nad ydynt yn weithredol mwyach	8
Wedi gwrthod cyfweliad	4
Dim ymateb	20
Cyfweliad wedi'i gynnal	11

Yn yr un modd, lluniwyd rhestr fer o sefydliad pobl anabl (SPAau) a chawsant alwad ffôn i ofyn am gyfweliadau byr (hyd at dair ymgais i gysylltu). Mae Tabl 3.2 yn crynhoi'r canlyniadau.

Tabl 3.2 Crynodeb o ymatebion gan SPAau

	Nifer y sefydliadau
Sefydliadau y cysylltwyd â nhw	11
Ymateb cychwynnol ond dim ymatebion pellach i geisiadau i drefnu cyfweliad	3
Dim ymateb	4
Cyfweliad wedi'i gynnal	3

Yn gyfan gwbl, sicrhawyd y nifer canlynol o gyfweliadau:

- 8 o bobl anabl
- 4 cynrychiolydd SPAau
- 14 cynrychiolydd sefydliadau Cymru-Affrica.

Rhoddir canllawiau pwnc ar gyfer y cyfweliadau lled-strwythuredig yn atodiad C.

Mae nodweddion sefydliadau a gafodd eu cyfweld yn atodiad D.

4. Cyfyngiadau

Mae gan gyfrif Twitter Anabledd Cymru dros 12,500 o ddilynwyr. Serch hynny, dim ond 65 o bobl a ddechreuodd lenwi'r arolwg i bobl anabl. Gall hyn fod yn awgrym o lefel y diddordeb yn y pwnc ond yn yr un modd nid oes gennym unrhyw ffordd o wybod faint o ddilynwyr a oedd yn weithredol ar yr adegau pan hyrwyddwyd yr arolwg.

Llywiwyd chwech o'r ymatebwyr allan o'r arolwg oherwydd nad oeddent yn bobl anabl. Fodd bynnag, fe wnaeth 23 o ymatebwyr eraill roi'r gorau i'r arolwg cyn cwblhau'r ail gwestiwn. I ddechrau roedd pryder mai cynnwys yr ail gwestiwn oedd wedi ysgogi hyn (cwestiwn 15 yn atodiad B) felly newidiwyd trefn y cwestiynau tua hanner ffordd trwy ffenestr yr arolwg. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn leihau'r gyfradd ymadael. Gall hyn fod yn awgrym bod diffyg diddordeb cyffredinol ym mhwnc craidd yr arolwg. Os yw hyn yn wir, gall fod yn awgrym bod sampl yr ymatebwyr yn gogwyddo tuag at y bobl anabl hynny sydd â diddordeb cynhenid mewn gwaith Cymru-Affrica yn hytrach na chynrychioli poblogaeth gyffredinol pobl anabl yng Nghymru.

Mae ymatebion i'r arolygon a'r rhai a gyfwelwyd yn cynnwys gwasgariad o sefydliadau o bob rhanbarth yng Nghymru¹², er mai dim ond tri ymatebydd i'r arolwg oedd o ogledd Cymru a dim un o'r rhai a gyfwelwyd.

¹² Atodiad A, ymateb 2 ac Atodiad D, ymateb 1

5. Canfyddiadau

5.1 Pobl anabl

5.1.1 Nodweddion cyfranogwyr yn yr ymchwil

Dim ond 14% o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn ymgysylltu â sector Cymru-Affrica. Roedd hyn yn cyferbynnu â 50% nad oeddent wedi ystyried cymryd rhan a 36% a oedd wedi ystyried cymryd rhan ond nad oeddent yn ymgysylltu ar y pryd¹³.

Y tri prif reswm a nodwyd dros beidio â bod yn weithredol yn y sector oedd:

- ddim yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan (52%)
- erioed wedi ystyried cymryd rhan (41%)
- bod blaenoriaethau eraill ar gyfer eu hamser a'u hegri (34%).

Roedd y gweddill yn gymysgedd o faterion yn ymwneud â gofynion mynediad, cynhwysiant a diffyg hyder i gymryd rhan¹⁴.

Roedd esboniadau ychwanegol a roddwyd am ddiffyg cyfranogiad yn dangos cymysgedd o bryderon. Mae rhai pobl yn poeni y gallai eu nam fod yn rhwystr rhag cymryd rhan, gan gynnwys sut y byddai anghenion meddygol yn cael eu diwallu. Codwyd pryder nad oeddent am fod yn faich ar eraill hefyd. Fe nodwyd pryderon ehangach hefyd am hawliau LGBTQ+ a rhywedd, gwahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol a diogelwch personol yn Affrica. Yn olaf, nododd pobl eu bod yn cael amser digon caled yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ar gyfer bywyd o ddydd i ddydd yng Nghymru, i'r graddau bod anghenion pobl mewn mannau eraill yn isel ar eu rhestr o flaenoriaethau.

¹³ Atodiad B, ymateb 2

¹⁴ Atodiad B, ymateb 3

Nododd naw o ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn ymwneud â sefydliadau Cymreig sy'n hyrwyddo datblygu yn Affrica. Mae pump o'r bobl hyn yn aelodau bwrdd, mae dau wedi gwirfoddoli yn Affrica ac mae'r gweddill yn cymryd rhan trwy rolau gwirfoddoli eraill.

Ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â sefydliadau Cymru-Affrica, y rhai a nodwyd fwyaf oedd Anabledd yng Nghymru ac Affrica (DWA), Brecon Molo a ResponseAble Assistance, gyda chyfeiriadau hefyd at y Safe Foundation a Tools 4 Life Swaziland.

Roedd gan y mwyafrif o'r bobl eraill a gyfwelwyd rywfaint o ymwybyddiaeth o sefydliadau Cymru-Affrica, llawer yng nghyd-destun gwaith datblygu rhwngwladol ehangach. Yn ogystal, roedd gan rai ohonynt gysylltiadau â phobl Affricanaidd neu brosiectau yn Affrica trwy brofiadau personol neu yn y gwaith. Nid oedd yr un ohonynt yn ymwneud yn ffurfiol â sefydliadau Cymru-Affrica, er bod un cyfranogwr wedi dod i wybod yn ddiweddar trwy'r cyfryngau cymdeithasol am sefydliad lleol sy'n gwneud gwaith yn Affrica ac wedi holi i ddarganfod a oedd cyfleoedd i gymryd rhan.

Mae pob un ond un PA a gafodd eu cyfweld wedi bod yn wirfoddolwyr mewn ystod o rolau, neu'n weithredol ar hyn o bryd. Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd wedi gwirfoddoli mewn rolau ar gyfer sefydliadau neu grwpiau anabledd neu wedi darparu eu profiad byw a'u harbenigedd fel person anabl. Mae hyn yn awgrymu bod y rhai a oedd yn ymgysylltu â'r ymchwil eisoes yn tueddu tuag at wirfoddoli a bod ganddynt ddiddordeb mewn anabledd.

Roedd rolau gwirfoddoli yn cynnwys gwaith ieuenctid, gweithgareddau eglwysig, ymddiriedolwyr, grwpiau ymgynghorol ac ymgynghorydd / siaradwr arbenigol ar faterion anabledd. Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd hefyd yn gweithio neu wedi ymddeol yn ddiweddar.

Pan ofynnwyd iddynt am eu cymhelliant dros wirfoddoli, 'gwneud gwahaniaeth' a 'rhoi yn ôl' oedd yr ymatebion amlycaf, ac yna 'dod â phobl ynghyd a gwella bywydau'.

5.1.2 Cymhellion a rhwystrau rhag cymryd rhan

Roedd y sylwadau yn yr arolwg wedi'u britho â chyfeiriadau at bobl anabl heb fynediad digonol neu â'u hanghenion hanfodol eu hunain heb eu diwallu yma yng Nghymru. Roedd nifer fach yn amlwg yn teimlo'n gryf iawn bod angen canolbwyntio ymdrechion ar gefnogi hawliau pobl anabl yng Nghymru cyn ceisio cefnogi pobl yn Affrica. Er bod ganddynt ddiddordeb yn sefyllfa PA mewn rhannau eraill o'r byd, roedd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr SPAau a gyfwelwyd yn adleisio'r teimladau hyn, gan ddarparu enghreifftiau o grwpiau mynediad o amgylch Cymru yn cau oherwydd diffyg cyllid neu aelodau'n gadael gan eu bod yn teimlo'n ddigalon oherwydd y teimlad nad oedd llywodraeth leol yn gwrando arnyn nhw.

Roedd un o'r rhai a gyfwelwyd o SPA yn cofio bod yn rhan o daith siarad PA o Affrica o amgylch sefydliadau yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o brofiadau PA yn ei wlad ac i roi cyfleoedd i ddangos undod. Er eu bod wedi llwyddo i dynnu sylw at sefyllfa sylweddol waeth PA yn ei wlad, roedd PA yn y gynulleidfa'n gweld bod y ceisiadau taer dro ar ôl tro am gymorth ariannol yn eu dieithrio oherwydd nad oeddent yn teimlo bod ganddyn nhw'r adnoddau i helpu. Yn aml, caiff SPAau eu hariannu gan awdurdodau lleol neu grantiau sydd â meini prawf llym nad ydynt yn rhoi hyblygrwydd i fynd y tu hwnt i'w cylch gorchwyl ac i gwmpasu pryderon rhyngwladol.

Fodd bynnag, i ymatebwyr yr arolwg oedd â diddordeb yn sector Cymru-Affrica, cefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol (65%), bywoliaethau (50%) a chydsafiad â phobl Affrica (50%) oedd fwyaf poblogaidd. Dilynwyd hyn yn agos gan yr amgylchedd (47%) ac iechyd (44%)¹⁵.

¹⁵ Atodiad B, ymateb 6

Pan ofynnwyd iddynt am rwystrau posibl i gynhwysiant a mynediad yng Nghymru ac yna yn Affrica, roedd diffyg mynediad neu ddarparu addasiadau rhesymol a diffyg cyllid i ddarparu addasiadau yn bryderon allweddol, ac yna diffyg gwybodaeth hygyrch¹⁶. Roedd y pryderon hyn yn uwch o ran pen Affrica i'r dolenni. Roedd 29% a 36% hefyd yn poeni na fyddai croeso i bobl anabl gymryd rhan yng Nghymru ac yn Affrica yn y drefn honno.

Mae'r diffyg cyfranogiad yn y sector gan fwyafrif ymatebwyr yr arolwg yn awgrymu bod gwaith dyfalu yn debygol o fod wedi dylanwadau ar atebion ynghylch rhwystrau rhag cymryd rhan yn Affrica neu, o bosibl, bod profiadau yng Nghymru wedi llywio ymatebion. Fodd bynnag, mae pryder arall yn ymwneud mwy â chwestiynau ynghylch y gwerth gwirioneddol y gallai sefydliadau datblygu eu gosod ar gyfraniad PA:

“Un rhwystr arall yw 'a fydd y sefydliad yn gwerthfawrogi'r hyn sydd gen i i'w gynnig?’”

(Person anabl a ymatebodd i'r arolwg)

Thema gref o fewn sylwadau PA oedd pwysigrwydd bod PA Affricanaidd yn ymwneud ag unrhyw brosiectau yr ymgwymerir â hwy:

“Mae angen i'r prosiectau gael eu harwain gan bobl Affricanaidd sy'n byw yn y cymunedau y bydd y prosiectau'n eu cefnogi. Nid ein cyfrifoldeb ni yw penderfynu beth sydd ei angen arnynt. ”

(Person anabl a ymatebodd i'r arolwg)

“[Rwyf] bob amser yn ymwybodol y gallai hyn fod yn safbwynt o un cyfeiriad penodol, h.y. criw o orllewinwyr gwyn dosbarth canol gyda'u agenda eu hunain.”

(Person anabl a gyfwelwyd)


¹⁶ Atodiad B, ymateb 7

Aeth rhai cyfranogwyr ymhellach, gan awgrymu bod diffyg dirnadaeth o wahaniaethau diwylliannol a phrofiad byw pobl anabl yn Affrica yn rhwystyr iddyn nhw rhag gwneud cyfraniad ystyrlon. Awgrymwyd mai un peth allweddol i ganolbwyntio arno yw grymuso PA Affrica i hunan-eirioli.

5.1.3 Diddordeb mewn cymryd rhan


Roedd gan 43% a 45% o ymatebwyr ddiddordeb neu ddiddordeb mawr mewn ymgysylltu â sefydliadau Cymru-Affrica o ben Cymru neu o ben Affrica i'r dolenni, yn y drefn honno¹⁷. Roedd y rhain yn cynnwys y pump sydd eisoes yn weithredol mewn sefydliadau Cymru-Affrica. Serch hynny, mae hyn yn cynrychioli 28% ychwanegol (10 o bobl) a 31% (11 o bobl) yn y drefn honno o PA sydd â diddordeb mewn ymgysylltu â'r sector.

Ffigur 5.1 - A fyddai gennych ddiddordeb mewn ymgysylltu â sefydliadau yng Nghymru sy'n gwneud gwaith datblygu yn Affrica? (e.e. fel cefnogwr, gwirfoddolwr, aelod bwrdd, codwr arian, ymgynghorydd, aelod o staff)? (n = 36)



¹⁷ Atodiad B, ymatebion 9 ac 11

Ffigur 5.2 - Pe bai cyfle yn codi, faint o ddiddordeb fyddai gennych chi mewn mynd i Affrica i gefnogi gweithgaredd datblygu? (n = 35)



Yn aml, roedd y rhesymau a roddwyd dros beidio â bod eisiau cymryd rhan yn cyfeirio at:


- ymrwymïadau amser eraill
- pryderon na fyddai gofynion mynediad yn cael eu bodloni neu
- y byddai nam / cyflwr cyfnewidiol yn ei gwneud hi'n anodd cynnal ymrwymiad¹⁸.

5.1.4 Galluogwyr cyfranogi

Pan ofynnwyd iddynt beth allai annog PA i ddod yn rhan o waith sefydliadau Cymru-Affrica, nododd yr ymatebwyr i'r arolwg nifer o ffactorau ysgogol, a grynhwir yn ffigur 5.3.

¹⁸ Atodiad B, ymatebion 9 ac 11

Ffigur 5.3 - Beth allai annog PA i ddod yn rhan o waith sefydliadau yng Nghymru sy'n cyflawni gwaith yn Affrica?



Roedd gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael i bobl anabl yn thema aml yn yr arolwg a'r cyfweiliadau. Roedd y cyfle i ddysgu sgiliau newydd yn apelio'n gryf hefyd. Dilynwyd hyn yn agos gan 'wybod bod croeso i bobl anabl'. Roedd yr angen i ymwneud â rhywbeth sy'n ystyrlon yn thema arall yn y cyfweiliadau. Gwnaethpwyd y pwynt, pan fydd gan bobl fywydau prysur eisoes, bod angen iddynt deimlo bod cysylltiad clir a gwahaniaeth cadarnhaol amlwg yn cael ei wneud i bobl yn Affrica o ganlyniad i'w cyfranogiad.

Byddai cwrdd â gofynion mynediad a'u hariannu hefyd yn annog pobl anabl i ymgysylltu â'r sector.

"Mae cael gwybodaeth i ddeall pa gyfleoedd sy'n bodoli a sut i gael mynediad atynt yn bwysig yn ogystal â'r hyder o wybod y bydd

unrhyw addasiadau rhesymol i gefnogi cyfraniad pawb yn cael eu deall a'u cefnogi."

(Person anabl a fu'n rhan o'r arolwg)

Mewn nifer o gyfweiliadau, amlygwyd gwahaniaeth rhwng y profiad o wirfoddoli i sefydliad dan arweiniad pobl fyddar neu dan arweiniad pobl anabl lle roedd meddwl am ofynion mynediad eisoes wedi'i wreiddio, a'r profiad o wirfoddoli mewn amgylcheddau lle nad oedd pobl anabl eisoes yn bresennol. Yn enwedig i rai a oedd â gofynion mewn perthynas â cholli clyw neu gymorth cyfathrebu, nid oedd yr ymdrech i sicrhau addasiadau rhesymol yn ymddangos yn werth chweil.

Roedd dau gyfranogwr yn awyddus i nodi bod angen i sefydliadau ddangos dealltwriaeth o namau cudd a chyflyrau cyfnewidiol fel poen a blinder. Roeddent yn teimlo y byddai afiechyd weithiau'n eu hatal rhag cymryd rhan i'r lefel yr hoffent wneud, yn enwedig felly pan nad oes modd rhagweld cyflwr eu hiechyd.

"Rwy'n blino'n hawdd, yn methu sefyll am gyfnodau hir ac rwy'n poeni y byddai pobl yn meddwl fy mod yn annibynadwy. Nid wyf am siomi pobl na chael pobl yn meddwl yn wael amdanaf. "

(Person anabl a gyfwelwyd)

Codwyd pryder ynghylch ymchwilio i fudd-daliadau gan un a gyfwelwyd, a oedd wedi bod yn destun adroddiad maleisus am dwyll budd-daliadau yn y gorffennol. Fe greodd bryder ynghylch cael eu 'gweld' a byddent yn fwy cyfforddus â rolau 'y tu ôl i'r llenni'.

Awgrymodd un ymatebydd i'r arolwg ei bod yn bwysig gweld PA yn weithredol ar frig sefydliadau, yn ogystal â darparu enghreifftiau o sut mae PA yn cymryd rhan mewn ystod o rolau gwirfoddoli.

“Dw i ddim wedi ystyried erioed y byddai hyn yn opsiwn. Mae gwirfoddolwyr yn aml yn edrych fel pobl ifanc, iach, abl. Dw i wastad wedi poeni y byddwn i yn y ffordd.”

(Person anabl a ymatebodd i'r arolwg)

5.1.5 Ymwybyddiaeth o sefydliadau allweddol

Roedd y mwyafrif o bobl a ymatebodd i'r arolwg yn debygol o fod wedi dod yn ymwybodol o'r ymchwil trwy gyfryngau cymdeithasol Anabledd Cymru. Nid yw'n syndod felly bod 94% o'r cyfranogwyr wedi nodi ymwybyddiaeth o Anabledd Cymru. Fodd bynnag, dim ond 33% a 29% oedd yn ymwybodol o Anabledd yng Nghymru ac Affrica a Hub Cymru Africa yn y drefn honno.

I rai unigolion, nid yw'n eglur beth yw pwrpas Anabledd yng Nghymru ac Affrica:

“Er fy mod yn deall y gallai pobl anabl yn Affrica ddioddef gormes a gwahaniaethu mawr, nid oes gennyf unrhyw wybodaeth wirioneddol am yr hyn y mae DWA yn bwriadu ei wneud a beth yw ei bwrpas.”

(Person anabl a ymatebodd i'r arolwg)

Dywedodd ymatebydd arall ei fod wedi mynychu digwyddiad Hub Cymru Africa ond ei bod yn ei chael hi'n anodd symud o gwmpas yn eu chadair olwyn oherwydd diffyg lle. Yn fwy cadarnhaol, nododd yr un ymatebydd fod mynediad gwastad a chyfleusterau toiled da a hygyrch.

5.2 Sefydliadau Cymru-Affrica

5.2.1 Nodweddion y sefydliadau

Cynrychiolwyd sefydliadau ym mhob rhanbarth yng Nghymru yn ymatebion yr arolwg, er na chymerodd yr un o Ogledd Cymru ran mewn cyfweliadau¹⁹.

¹⁹ Atodiad A, ymateb i gwestiwn 2; Atodiad D, ymateb 1

Dim ond un ymateb a gafwyd gan sefydliad datblygu yng Nghymru ar raddfa sylweddol, h.y. gyda staff byd-eang yn y cannoedd. Awgrymodd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd eu bod yn dod o sefydliadau heb unrhyw staff neu â dim ond *llond llaw* o staff a gwirfoddolwyr o Gymru yn amrywio o 'grŵp o ffrindiau o amgylch bwrdd y gegin' i'r rhai sy'n denu degau, ac yn llai aml, cannoedd o wirfoddolwyr.

Awgrymodd cynrychiolwyr dolenni â 24 o wledydd penodol yn Affrica, gyda rhai eraill yn awgrymu dolenni â gwledydd sy'n cwmpasu rhanbarthau megis Affrica Is-Sahara neu, mewn un achos, Affrica gyfan²⁰.

Roedd addysg, iechyd a bywoliaethau yn sefyll allan fel meysydd diddordeb allweddol i sefydliadau datblygu a ymatebodd i'r ymchwil hwn²¹.

5.2.2 Cynnwys pobl anabl yng ngwaith y sefydliad

Mae Tabl 5.1 yn cyferbynnu lefelau ymgysylltiad sefydliadau datblygu â phobl anabl yng Nghymru ac yn Affrica.

Tabl 5.1 Cynnwys pobl anabl gan sefydliadau Cymru-Affrica

Gweithgaredd	yng Nghymru	Yn Affrica	Ddim yn gwybod
Yn cynnal gwaith gyda PA	28%	44%	28%
Yn cynnal gwaith gyda gwirfoddolwyr anabl	43%	29%	29%
PA yn defnyddio gwasanaethau'r sefydliad	17%	66%	17%
Teuluoedd PA yn defnyddio gwasanaethau'r sefydliad	28%	59%	14%
Yn eirioli ar ran PA	25%	63%	13%
Mae PA ar brif fwrdd y sefydliad / rhaglen	23%	-	23%

²⁰ Atodiad A, ymateb i gwestiwn 3, Atodiad D, ymateb 2

²¹ Atodiad A, ymatebion i gwestiwn 5; Atodiad D, ymateb 3

Ystadegau wedi'u tynnu o atodiad A, ymatebion 6 a 7.
Ceir gwallau talgrynnu.

O ystyried canran yr ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oedd pobl anabl yn cymryd rhan, fel arfer oherwydd persbectif cyfyngedig eu rôl yn y sefydliad, mae hyn yn awgrymu bod gan fwy na dwy ran o dair ac o bosibl oddeutu tri chwarter y sefydliadau PA neu eu teuluoedd yn cael budd o'u gwaith yn Affrica. Byddai hyn yn unol â'r ddealltwriaeth oedd gan y rhai a gyfwelwyd, gyda bron pob un ohonynt yn cydnabod y byddai rhai PA neu eu teuluoedd yn elwa o'u gwaith yn Affrica.

Mae cyfranogiad PA yng Nghymru i gefnogi'r gwaith hwn yn is, yn fwyaf arbennig ar lefelau bwrdd / grŵp llywio neu weithwyr cyflogedig, ond hefyd ar lefel gwirfoddolwr, er nad oes cymaint o wahaniaeth ar y lefel honno. Yn yr un modd, adlewyrchwyd y lefelau ymgysylltu a nodwyd yn nhabl 5.1 yng nghanfyddiadau'r rhai a gyfwelwyd. Serch hynny, mae ansicrwydd o hyd ynghylch y lefelau ymgysylltu hyn. Fel yr awgrymodd nifer o ymatebwyr i'r arolwg a rhai a gyfwelwyd, gall fod gan bobl namau neu gyflyrau anweledig ac nid yw rhai pobl o reidrwydd yn nodi eu hunain yn bobl anabl hyd yn oed os oes ganddynt nam. At hynny, nododd rhwng 44% a 66% o ymatebwyr i'r arolwg nad oedd eu sefydliad yn casglu data monitro cydraddoldebau ar unrhyw lefel, felly ni allent fod yn siŵr ynghylch lefelau cyfranogiad PA²². Yn rhannol, roedd hyn yn nodwedd o'r nifer gymharol fawr o sefydliadau bach a ymatebodd a oedd yn codi arian yn uniongyrchol gan y cyhoedd. Weithiau mae angen gwybodaeth am gydraddoldeb ar roddwyr grantiau, ond efallai na fydd sefydliadau nad ydynt yn defnyddio grantiau yn ystyried gwerth casglu data ar gyfranogiad PA.

O dreiddio ymhellach i ystyried pam y gallai fod gan sefydliadau lefelau ymgysylltu is gan PA yng Nghymru nag sydd ganddynt o fuddiolwyr yn Affrica, awgrymwyd nifer o resymau²³:

²² Atodiad A, ymateb 16

²³ Atodiad A, ymatebion 8 a 10

- Mae llawer o sefydliadau Cymru-Affrica yn fach iawn ac mae arweinwyr yn tynnu ar gronfa fach o bobl, a'r rheiny'n bobl o gefndiroedd tebyg iddyn nhw eu hunain fel rheol
- Efallai nad yw PA yn gwybod am eu sefydliad gan nad oes ganddo'r adnoddau i hyrwyddo ei hun i'r cyhoedd yn ehangach ac nad yw'n gwybod sut i estyn allan at PA
- Gall swyddfeydd a lleoliadau cyfarfod a ddefnyddir gan rai sefydliadau yng Nghymru fod yn anhygyrch i rai PA
- Efallai bod rhai pobl yn y sector datblygu yn teimlo nad oes ganddynt ddealltwriaeth o namau neu gyflyrau penodol, neu'r sgiliau neu gyllid i gynnwys PA yn eu gwaith.

Awgrymodd 83% o ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn awyddus i gynnwys mwy o PA naill ai nawr neu yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd y rhai a gyfwelwyd yn tueddu i egluro bod hyn yn fwy o fater o fynegi eu bod yn agored i gynnwys mwy o PA yn eu gwaith yn hytrach na datganiad o fwriad rhagweithiol. Serch hynny, awgrymodd bron pob ymatebydd i'r arolwg a'r rhai a gyfwelwyd eu bod yn gweld buddion o gynnwys PA yn eu gwaith. Roedd deall pa fuddion yr oeddent yn eu gweld yn faes ffocws penodol mewn cyfweiliadau. Roedd yr ymatebion yn tueddu i rannu i'r categorïau canlynol:

- Nid oes gan PA unrhyw beth unigryw i'w gynnig *ynddynt eu hunain* ond mae gan bawb rywbeth gwerthfawr i'w gynnig ac o'r herwydd, dylid cynnwys pawb
- Bydd cynnwys PA yn cynyddu eu synnwyr o hunan-werth
- Mae cynnwys PA yn Affrica yn creu modelau rôl ar gyfer buddiolwyr anabl, gan herio hunan-ganfyddiadau a chanfyddiadau ehangach yn y gymuned am y rolau y gall PA eu chwarae mewn cymdeithas
- Mae cynnwys PA yng ngwaith sefydliadau datblygu yn herio canfyddiadau aelodau tîm yng Nghymru ac yn Affrica o'r hyn y gall

PA ei gyflawni ac felly sut y gallant fod yn rhan o bob agwedd ar waith y sefydliad.

- Mae tynnu ar brofiad byw PA yn codi ymwybyddiaeth yn y sefydliad datblygu o faterion sy'n wynebu PA ac felly'n helpu i lywio blaenoriaethau ar gyfer PA yn Affrica.

At ei gilydd, awgrymodd tua thri chwarter y cyfranwyr i gyfweiliadau ac i'r arolwg fod gan PA rywbeth unigryw i'w gynnig i eraill oherwydd eu profiad byw, p'un ai oedd hynny'n gweithredu fel modelau rôl, yn llywio blaenoriaethau neu'n herio stereoteipiau.

Aeth rhai cyfranogwyr â'r dirnadaethau hyn gam ymhellach trwy awgrymu nad yw'n ddigon i PA gwyn, Ewropeaidd ymgysylltu â PA yn Affrica er mwyn herio ystrydebau neu weithredu fel modelau rôl:

"Nid oes gennym unrhyw Ewropeaid yn ein tîm yn Zambia - maen nhw [aelodau'r tîm] yn gwybod sut beth yw bywyd yn Zambia a sut brofiad yw bod yn anabl yn Zambia. Rydym yn gweld y fantais o gael pobl abl ac anabl yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd. Nid yw'n rhywbeth y gallwn ei wneud fel rhywun abl nad yw'n Zambiad. "
(Cynrychiolydd sefydliad datblygu Cymru-Affrica)

Er bod tri chwarter y rhai a roddodd wybodaeth yn awgrymu bod buddion i gynnwys PA yn eu gwaith, hanner neu lai sy'n cynnwys PA yn y gwaith o gynllunio neu gyflawni eu gwaith²⁴.

Mae'r graddau y mae sefydliadau Cymru-Affrica yn ceisio helpu PA i gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau yn amrywiol. Nid yw rhai yn ystyried hyn fel rhan o'u cylch gwaith, naill ai oherwydd eu bod yn ceisio cefnogi'r gymuned ac nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl neu oherwydd y gallai eu gwaith fod â ffocws penodol iawn, er enghraifft, darparu meddyginiaeth benodol i is-set o'r

²⁴ Awgrymodd hanner y rhai a gyfwelewyd fod mewnbyn gan PA tra bod 37% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg wedi ateb yn yr un modd. Fodd bynnag, nid oedd 13% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn gwybod a oedd PA yn cymryd rhan, gan awgrymu bod mewnbyn yn bresennol mewn rhwng 37% a 52% o achosion.


gymuned. Serch hynny, mae 60% o ymatebwyr i'r arolwg yn ceisio sicrhau bod gan eu mentrau'r gallu i gynnwys pobl anabl a rhoi rôl iddynt²⁵. Aiff hyn i lawr i 28% o safbwynt ceisio mwy o newid cymdeithasol trwy 'annog mwy o berchnogaeth gymunedol ar faterion anabledd a all ddatblygu'n system o gefnogaeth i bobl anabl a / neu eu teuluoedd'. Dangosir hyn yn ffigur 5.4. Mae cyfweiliadau'n awgrymu bod sefydliadau Cymru-Affrica sydd â diddordeb neu ffocws penodol ar gefnogi pobl anabl yn Affrica yn tueddu i weithio yn y dull olaf hwn gyda SPAau neu aelodau teulu pobl anabl.

Awgrymodd bron i dri chwarter o'r ymatebwyr i'r arolwg y byddai eu sefydliad yn elwa o hyfforddiant ar sut i gynnwys PA yn eu gwaith ond wnaethon nhw ddim rhoi unrhyw awgrym o ba fath o hyfforddiant neu weithgaredd gwella capasiti fyddai fwyaf buddiol²⁶. Roedd y cyfweiliadau'n awgrymu bod cyrff yn agored ar y cyfan i weithgaredd gwella capasiti ond nad oedd galw amlwg. Awgrymodd rhai y byddai cyfyngiadau capasiti yn rhwystro rhag cymryd rhan mewn hyfforddiant. Awgrymodd eraill y gallai'r angen am hyfforddiant fod yn Affrica yn hytrach nag yng Nghymru.

²⁵ Atodiad A, ymateb 15

²⁶ Atodiad A, ymateb 18

Ffigur 5.4 Sut mae'ch gweithgaredd yn helpu pobl anabl i ddod yn rhan weithredol o'r gymuned? (n = 25)



5.2.3 Ymwybyddiaeth o sefydliadau allweddol

Oherwydd bod sefydliadau datblygu sy'n ymwneud â chysylltiadau Cymru-Affrica wedi cael eu targedu, nid yw'n syndod bod 89% o'r ymatebwyr wedi clywed am Hub Cymru Africa²⁷. Ond efallai nad oedd y ffaith bod 81% o'r ymatebwyr wedi clywed am Anabledd Cymru mor rhagweladwy. Mae hyn yn fwy o syndod o ystyried mai dim ond 56% oedd

²⁷ Atodiad A, ymateb 19

cyfradd adnabod Anabledd yng Nghymru ac Affrica yn sector Cymru-Affrica.

6. Casgliadau

Yma rydym yn tynnu ar y canfyddiadau er mwyn ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau ymchwil yr astudiaeth.

6.1 Ffactorau sy'n rhwystro neu'n cefnogi cynhwysiant pobl anabl

Y prif ffactor sy'n rhwystro cyfranogiad PA yn sector Cymru-Affrica yw diffyg ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sy'n bodoli iddynt gymryd rhan. Yn dilyn hyn yn uniongyrchol, mae diffyg dealltwriaeth o pam y byddai PA eisiau cymryd rhan. Mae'r pwynt olaf hwn yn bwysig o ystyried bod gan gyfranogwyr fel rheol ystod o flaenoriaethau uwch, gan gynnwys eu hanghenion personol eu hunain neu anghenion sefydliadau eraill yn eu hardal yn aml.

Cyfeiriwyd hefyd at ffactorau eraill sy'n rhwystro cyfranogiad, megis hyder i gymryd rhan, sut y byddai PA yn cael eu derbyn neu a fyddai anghenion mynediad yn cael eu diwallu. Dylid nodi bod y materion hyn yn fwy generig eu natur, h.y. gallent fod yn berthnasol i unrhyw sefydliad y gallai PA ddewis gwirfoddoli neu weithio iddo.

6.2 Gwerth cynnwys pobl anabl i unigolion, grwpiau a sefydliadau

Nodwyd cyfres o ffactorau yn yr astudiaeth:

- Ymrwymiad i gynhwysiant
- Gwell hunan-barch a lles i PA trwy wirfoddoli neu waith cyflogedig
- Her i sefydliadau Cymru-Affrica, eu buddiolwyr a'u cymunedau ehangach o safbwynt yr hyn y gall PA ei gyfrannu at gymdeithas
- Mae profiad byw PA yn golygu eu bod yn gwybod am faterion sy'n wynebu PA yn Affrica, a thrwy hynny yn gallu llywio blaenoriaethau sefydliadau Cymru-Affrica.

Mae cynnwys pobl anabl oherwydd ymdeimlad o werth cynhenid pawb yn ganmoladwy ond efallai bod rhai o'r buddion unigryw a gynigir i'r sector gan bobl anabl yn cael eu colli o gymryd yr agwedd honno. Yn debyg iawn i hynny, cydnabyddir yn eang y gall gwirfoddoli a chyflogaeth wella ymdeimlad pobl o hunan-werth a lles - nid yw PA yn ennill unrhyw beth unigryw o'u cynnwys yn benodol yn y sector.

Mewn cyferbyniad, mae'r adolygiad llenyddiaeth a chanfyddiadau sylfaenol yr ymchwil yn pwysleisio'r ffactorau model rôl a'r profiad byw uchod fel rhai gwerthfawr a nodedig. Serch hynny, mae'r canfyddiadau'n awgrymu na ddylai cynnwys PA yng Nghymru fod ar draul cynnwys PA yn Affrica, o ystyried graddfa uwch perthnasedd eu profiad byw. Yn wir, roedd rhai cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon yn cwestiynu a all unrhyw PA Ewropeaidd fod yn fodel rôl ar gyfer PA Affricanaidd, o ystyried y bwlch eang posibl rhwng eu sefyllfaoedd.

6.3 Faint o ddiddordeb posibl sydd ymhlith pobl anabl Cymru mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymru-Affrica

Efallai fod yr her o geisio cynnwys nifer fawr o PA yn yr ymchwil hwn yn awgrymu nad yw diddordeb yn y sector yn eang.

Mae'r ymatebion i'r astudiaeth hon yn tynnu sylw at graidd bychan o bobl anabl sy'n weithgar yn y sector a bod maes PA yn ehangach yn aneglur ynghylch pa gyfleoedd a all fod ar gael iddynt.

Gellir rhoi hwb i'r lefel hon o ddiddordeb os bydd sector Cymru-Affrica yn sicrhau bod gwybodaeth hygyrch a chyfleoedd priodol ar gael.

Byddai neges bod croeso i PA wedi'i hategu gan ymdrechion i ddeall a chwrdd â gofynion mynediad yn denu PA sy'n chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at achosion gwerth chweil. Yn benodol, byddai angen i PA deimlo bod buddion pendant yn cael eu darparu i bobl yn Affrica trwy eu bod nhw'n cymryd rhan, yn ogystal â sicrwydd bod pobl Affrica eu hunain yn ymwneud â nodi blaenoriaethau prosiectau.

6.4 Beth yw canfyddiad pobl anabl a'u sefydliadau o sector Cymru-Affrica

Ar wahân i'r lleiafrif o PA sy'n ymwneud â dolenni Cymru-Affrica, cyfyngedig oedd profiad uniongyrchol y mwyafrif o'r sector. O ganlyniad, efallai y bu tueddiad i dynnu ar brofiadau o weithio neu wirfoddoli mewn sefydliadau eraill wrth feddwl am sector Cymru-Affrica.

Lle roedd gan bobl brofiad uniongyrchol o gwrdd â phobl Affrica neu o gael cyswllt â phrosiectau Cymru-Affrica, roedd tuedd i fod o'r farn bod heriau sy'n wynebu PA yng Nghymru o ran iechyd, gofal cymdeithasol,

mynediad neu hawliau dynol yn cael eu chwyddo yn Affrica. Serch hynny, i lawer roedd yr heriau yng Nghymru yn ddigon cryf i atal symud ffocws o Gymru i Affrica.

Roedd lefel uwch o ansicrwydd ynghylch cymryd rhan yn Affrica nag yng Nghymru, er bod rhai yn amlwg yn croesawu cyfleoedd o'r fath. Roedd yr ansicrwydd hwn yn tueddu i fod yn seiliedig ar ganfyddiad y gallai materion mynediad, iechyd a gofal cymdeithasol fod yn anoddach i'w rheoli yn Affrica nag yng Nghymru.


6.5 Ffactorau ysgogol i bobl anabl ymgysylltu â'r sector

Mewn sawl ffordd, nid oedd ffactorau ysgogol ar gyfer ymgysylltu yn unigryw i'r sector hon. Er bod PA eisiau gwybod y byddai eu hanghenion mynediad a chymorth yn cael eu diwallu, roedd yn bwysicach dysgu sgiliau newydd a theimlo bod croeso gwirioneddol i PA oherwydd yr hyn y gallent ei gyfrannu yn hytrach na'u bod yn cael eu cynnwys am resymau symbolaidd. Gall fod mwy na gwerth ymarferol yn unig i barodrwydd i ariannu mynediad, cymorth neu gludiant, gan ei fod yn arwydd pendant o groeso. Yn union fel yr oedd pobl eisiau teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, roeddent eisiau teimlo hefyd eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd a oedd ag ystyr i fywydau eraill neu'r amgylchedd.


Nodweddion pellach y canfyddiadau sydd o bwys yw diddordebau PA a sut maent yn cymharu â'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan gyfranogwyr Cymru-Affrica yn yr ymchwil. Mae ffigurau 6.1 a 6.2 yn cymharu'r ddau.

Mae'n amlwg bod gan PA ddiddordeb mewn materion allweddol fel bywoliaethau, addysg, iechyd a datblygiad cyffredinol sydd o ddiddordeb i sefydliadau Cymru-Affrica, ond mae pryderon tebyg neu fwy am faterion cydraddoldeb a hawliau dynol, cydsefyll â phobl Affrica a'r amgylchedd.

Ffigur 6.1 - Mathau o waith a wnaed gan bartneriaethau Cymru-Affrica



Ffigur 6.2 - Mathau o waith sydd o ddiddordeb i bobl anabl



6.6 Mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal cyfranogiad pobl anabl mewn gweithgareddau Cymru-Affrica

Rhoddwyd sylw i'r rhwystrau a'r ysgogwyr i gymryd rhan uchod. Mae gweithredu i fynd i'r afael â'r rhwystrau a harneisio ysgogwyr yn dilyn yn rhesymegol:

- a) Codi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan
- b) Dangos sut y gall ac y mae pobl anabl yn gwneud gwahaniaeth trwy fod yn rhan o bethau
- c) Dangos i bobl anabl fod croeso iddyn nhw ac y gallan nhw wneud cyfraniad cadarnhaol at y gwaith - mae cwrdd â gofynion cymorth a mynediad yn mynd rhywfaint o'r ffordd i wneud hyn
- d) Dangos dealltwriaeth o namau cudd a chyfnewidiol a pharodrwydd i chwilio am gyfleoedd sy'n caniatáu i unigolion gymryd rhan ar lefel sy'n gweithio iddyn nhw
- e) Sicrhau ei bod yn eglur bod pobl Affrica yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio / cyflwyno gweithgareddau
- f) Gwellu ymwybyddiaeth o wahaniaethau diwylliannol rhwng Affrica a Chymru, gan gynnwys mynd i'r afael â stereoteipiau a mynd i'r afael â phryderon am ddiogelwch a hawliau dynol.

Mae nifer o'r negeseuon hyn yn syml iawn i'w cynnwys mewn deunydd hyrwyddo, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol am sefydliadau, eu gwaith a'u cyfleoedd i wirfoddolwyr (neu swyddi gwag).

Nid yw gweithredoedd (a), (e) ac (f) yn benodol i PA. Yn yr un modd, gall profiadau sy'n apelio at PA, megis cwrdd â phobl newydd, meithrin sgiliau a hyder fod yn rhan greiddiol o'r profiad i unrhyw un sy'n gwirfoddoli neu'n gweithio yn sector Cymru-Affrica.

Gallai negeseuon o fewn sianeli cyfathrebu cyffredinol a chyfryngau cymdeithasol rannu astudiaethau achos am PA yn gwneud gwahaniaeth yn sector Cymru-Affrica. Yn ogystal, gellir targedu negeseuon at SPAau.

Mae astudiaethau achos a rennir gan SPAau yn debygol o ysgogi mwy o ddiddordeb ymhlith PA. At hynny, gall SPAau ymgorffori'r negeseuon hyn yn eu cylchlythyrau a'u cyfarfodydd.

Er y bydd gwaith partneriaethau Cymru-Affrica yn adlewyrchu blaenoriaethau pobl Affrica o ran bywoliaethau, addysg ac iechyd, mae pwysleisio agweddau ar y gwaith hwn sy'n mynd i'r afael â materion cydraddoldeb, hawliau dynol ac amgylcheddol yn debygol o gynyddu'r apêl i PA yng Nghymru. Byddai hyn yn wir hefyd petai cydsefyll â phobl Affrica yn cael ei bwysleisio mewn negeseuon.

6.7 Canfyddiad Cysylltiadau Cymru-Affrica o gynhwysiant anabledd

Roedd canfyddiad cyffredinol gan bartneriaethau Cymru-Affrica fod cynhwysiant anabledd yn beth da. Roedd fel petai hyn yn seiliedig ar ganfyddiad ehangach bod cynhwysiant yn gyffredinol yn beth da, h.y. mae gan bawb werth cynhenid y mae angen ei barchu a'i gofleidio, waeth beth fo'u nodweddion personol.

Aeth rhai cyfranogwyr ymhellach ac awgrymu bod cymryd rhan yn y sector yn cyfrannu'n gadarnhaol at ymdeimlad pobl anabl o hunan-werth. Yn ôl pob tebyg, roedd hyn hefyd yn sylw cyffredinol ar sut mae gwaith ystyrlon neu wirfoddoli fel arfer yn cael ei ystyried yn dda i bobl.

Fodd bynnag, aeth mwyafrif yr ymatebwyr ymhellach fyth, gan awgrymu bod gan PA rywbeth unigryw i'w gynnig i bartneriaethau Cymru-Affrica. Roedd y canfyddiadau hyn yn tueddu i fod â gwreiddiau yn y profiad byw yr oedd PA yn ei gynnig. Roedd cred y gallai hyn alluogi PA yng Nghymru i fod yn fodlau rôl i PA yn Affrica, cynnig dealltwriaeth newydd i sefydliadau Cymru-Affrica er mwyn llywio eu gwaith yn Affrica a herio ystrydebau am PA yng Nghymru ac yn Affrica.

6.8 Y potensial sydd i Bartneriaethau Cymru-Affrica gynnwys ac ymgorffori'r sgiliau a'r arbenigedd sydd gan bobl anabl i'w cynnig

Awgrymodd bron pob partneriaeth Cymru-Affrica eu bod yn agored i gynnwys PA yn eu gweithgareddau. I'r mwyafrif, roedd hyn yn adlewyrchu sefyllfa o ymateb i bwy bynnag sy'n cynnig gwirfoddoli. Felly, er bod gan lawer o sefydliadau PA yn rhan o'u gwaith, nid oedd hyn o reidrwydd yn deillio o ymdrechion pwrpasol i sicrhau hynny.

Yn wir, nid yw'r mwyafrif o sefydliadau Cymru-Affrica yn mynd ati i geisio recriwtio PA i'w gwaith, oherwydd eu bod:

- yn brin o adnoddau i hyrwyddo eu hunain yn gyffredinol
- heb fod angen mwy o wirfoddolwyr na staff
- yn canfod nad yw'r cyfleusterau na'r sgiliau priodol ganddynt i gynnwys PA yn effeithiol.

Mae'r ddau bwynt cyntaf hyn yn ymwneud â chapasiti ac yn ymestyn ymhellach na mater cynnwys PA. Maent yn deillio mwy o faint cymharol fach y sefydliadau fu'n cymryd rhan yn yr ymchwil.

Roedd materion mynediad yn tueddu i fod yn seiliedig ar swyddfeydd ar lawr cyntaf adeiladau heb lifftiau. Er bod hynny'n berthnasol i bobl â phroblemau symudedd neu i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ni fyddai hyn yn broblem i lawer o PA. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r sector elwa o godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o namau a chyflyrau a sut y gallant ymateb yn fwyaf cadarnhaol i bobl â gwahanol namau. Mae hyn yn adleisio adborth gan y rhai fu'n rhan o'r ymchwil bod ansicrwydd ynghylch sut i ddelio ag anghenion penodol pobl.

Er y gallai'r sector elwa o godi ymwybyddiaeth yn y fath fodd, mae'r materion capasiti a amlygwyd eisoes yn ei gwneud hi'n annhebygol y byddai llawer o sefydliadau'n cymryd rhan mewn ymyriadau hyfforddi ffurfiol ynghylch materion o'r fath. Yn lle hynny, gallai adnoddau ar-lein neu ymgorffori talpiau bach o waith codi ymwybyddiaeth ynghylch materion PA yng nghyfarfodydd prif ffrwd sector Cymru-Affrica fod yn fwy effeithiol. Yn yr un modd, byddai annog pobl yn y sector i ofyn i PA

am eu hanghenion a sut i fynd i'r afael â hwy yn fwy buddiol na phoeni am eu diffyg gwybodaeth neu am achosi tramgwydd.

7. Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol yn deillio'n uniongyrchol o'r casgliadau.

Argymhelliad 1: Dylai DWA, HCA ac AC ystyried codi ymwybyddiaeth o'r rhesymau cadarnhaol dros gynnwys pobl anabl yn sector Cymru-Affrica.

Rhaid i'r rhesymau cadarnhaol fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gan dynnu ar ymchwil sylfaenol o'r astudiaeth hon a llenyddiaeth ehangach.

Argymhelliad 2: Dylai sector Cymru-Affrica godi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd i bobl anabl gymryd rhan yng ngwaith y sector.

Efallai y bydd HCA yn y sefyllfa orau i arwain ar weithredu'r argymhelliad hwn ond gan weithio gydag AC a DWA fel y prif lwybrau at bobl anabl.

Argymhelliad 3: Dylid defnyddio astudiaethau achos o bobl anabl sy'n cyfrannu at sector Cymru-Affrica i godi ymwybyddiaeth o'r sector i bobl anabl.

Argymhelliad 4: Wrth godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan yn sector Cymru-Affrica, mae tynnu sylw at gysylltiadau â materion cydraddoldeb, hawliau dynol ac amgylcheddol yn debygol o ennyn diddordeb pobl anabl, ynghyd â negeseuon am gydsefyll â phobl Affrica a bod pobl Affrica yn cymryd rhan wrth ddatblygu mentrau.

Argymhelliad 5: Wrth groesawu pobl anabl i sector Cymru-Affrica, dylai sefydliadau dynnu sylw at y sgiliau a'r profiad byw y mae pobl anabl yn eu cynnig a cheisio deall a chefnogi eu hanghenion mynediad.

Argymhelliad 6: Wrth weithio gyda phobl anabl, dylai sefydliadau Cymru-Affrica geisio dangos dealltwriaeth o namau cudd a chyfnewidiol a pharodrwydd i ddarparu cyfleoedd sy'n caniatáu i unigolion gymryd rhan ar lefel sy'n gweithio iddyn nhw.

Argymhelliad 7: Dylai sector Cymru-Affrica ddarparu cyfleoedd i wella cyfnewid diwylliannol a gwybodaeth rhwng Cymru ac Affrica, er mwyn gwella dealltwriaeth o wahaniaethau a'r hyn sy'n gyffredin rhwng pobl anabl ar y naill ben a'r llall i ddolenni cyswllt.

Argymhelliad 8: Ar gyfer sefydliadau sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad pobl anabl, dylid ystyried casglu data cydraddoldebau, er mwyn olrhain cynnydd.

Argymhelliad 9: Dylai HCA, gyda chefnogaeth DWA ac AC, ystyried ymgorffori codi ymwybyddiaeth o wahanol namau a chyflyrau yn ei raglen weithgareddau brif ffrwd.

Mae'r argymhelliad olaf hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r angen a fynegwyd gan sefydliadau Cymru-Affrica am hyfforddiant ar y materion hyn ond eu diffyg gallu i fynychu sesiynau hyfforddi penodol.

8. Cyfeiriadau

Coe, S. a Wapling, L. (2010) 'Travelling Together', World Vision UK cyrchwyd yn <https://www.wvi.org/disability-inclusion/publication/travelling-together> ar 13/09/19

Yr Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol (2019) 'Disability and Development Report - Realizing the Sustainable Development Goals by, for and with persons with disabilities', y Cenhedloedd Unedig, Efrog Newydd, cyrchwyd yn <https://www.un.org/development/desa/disabilities/wp-content/uploads/sites/15/2019/07/disability-report-chapter2.pdf> ar 13/09/19

Edmonds, L.J. (2005) 'Disabled People and Development', t46, Asian Development Bank, cyrchwyd yn <https://www.think-asia.org/bitstream/handle/11540/5360/Disabled-people-and-development.pdf?sequence=2> ar 13/09/19

Maclachlan, M a Swartz, L. (2009) 'Disability & International Development', Springer, Efrog Newydd, gellir ei weld yn <https://link.springer.com/book/10.1007/978-0-387-93840-0>

Mohan, G. (2001) 'Participatory development', yn: Desai, V. a Potter, R. (gol.) 'The Arnold Companion to Development Studies', Hodder, tt. 49–54, Llundain, cyrchwyd yn <http://oro.open.ac.uk/4159/1/DEVCOMP2.pdf> ar 13/09/19

Mosse, D. (1994) 'Authority, Gender and Knowledge: Theoretical Reflections on the Practice of Participatory Rural Appraisal', Development and Change, 25, 497-526.

Overseas Development Group (2004) 'Disability Knowledge and Research: Assessing Connections to DFID's Poverty Agenda', t5, cyrchwyd yn https://assets.publishing.service.gov.uk/media/57a08cad40f0b652dd001498/PolicyProject_IsabelOrtizReportFinal1.pdf ar 13/09/19

Richards, P. (1995) 'Participatory Rural Appraisal: A quick and dirty critique', cyrchwyd yn https://www.researchgate.net/profile/Paul_Richards6/publication/238772781_Participatory_rural_appraisal_A_quick_and_dirty_critique/links/0f3175303bfcc30179000000/Participatory-rural-appraisal-A-quick-and-dirty-critique.pdf ar 13/09/19

Yeo, R. a Moore, K. (2003) 'Including Disabled People in Poverty Reduction Work: "Nothing About Us, Without Us"', World Development Cyf. 31, rhif 3, tt. 571–590